# PWYLLGOR ARCHWILIO

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2012

| | |
|---|---|
| **YN BRESENNOL:** | Y Cynghorydd T. Jones (Cadeirydd)<br><br>Y Cynghorwyr E. G. Davies, K. Evans, V. Hughes, G. O. Jones, E. Roberts, I. Williams<br>Y Cynghorydd R. Ll. Jones (Cadeirydd y Cyngor Sir) (ar gyfer Eitem 1 a 2 yn unig). |
| **AELODAU LLEYG:** | Mr. Richard Barker a Mrs Sharon Warnes |
| **WRTH LAW**: | Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) a Swyddog Adran 151,<br>Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid)<br>Rheolwr Archwilio Mewnol (JF)<br>Rheolwr Cyfrifo Mewnol (JM) (Eitem 7 yn unig)<br>Rheolwr TG Dros Dro (BE)<br>Pennaeth Gwasanaeth (Polisi)<br>Cyfreithiwr y Swyddog Monitro (RMJ)(Eitemau 1 a 2 yn unig)<br>Swyddog Pwyllgor (JMA) |
| **HEFYD YN BRESENNOL**: | Y Mri. Andy Bruce & John Roberts (Swyddfa Archwilio Cymru)<br>James Quance & Joe Hargreaves (PwC) |
| **YMDDIHEURIADAU** | Y Cynghorydd C. Everett |

---

DRAFT

**1 CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR SIR 27 MEHEFIN 2012**

Eglurodd Cadeirydd y Cyngor Sir ei fod ef yn Cadeirio'r eitem i ethol Cadeirydd i'r Pwyllgor Archwilio oherwydd bod y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 18 a 24 Mai 2012 yn ddi-rym oherwydd nad oedd Aelodau Lleyg yn y cyfarfodydd.

**2 ETHOL CADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd T. H. Jones yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio. Diolchodd i'r Pwyllgor am ei hyder ynddo.

Rhoddodd y Cadeirydd groeso i'r Cynghorydd Vaughan Hughes, Aelod newydd Ward Llanbedrgoch i'w gyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio ac estynnodd groeso cynnes i'r Comisiynydd M. Giannasi.

**3 IS-GADEIRYDD**

Etholwyd y Cynghorydd Eric Roberts yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio.

**4 AELODAU LLEYG**

Croesawyd Mr Richard Barker a Ms Sharon Warnes fel Aelodau Lleyg i'w cyfarfod cyntaf o'r Pwyllgor Archwilio.

## 5 DATGANIAD O DDIDDORDEB

Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb gan Aelod na Swyddog.

## 6 COFNODION

Cyflwynwyd a chadarnhawyd fel rhai cywir gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Mai 2012.

## 7 AMCANGYFRIFON A NEWIDIADAU AR GYFRIFON 2011/12

Cyflwynodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) Dros Dro grynodeb byr o'r dyfarniadau allweddol yn y Datganiad Cyfrifon 2011/12. Ychwanegodd bod Datganiad Cyfrifon drafft y Cyngor am 2011/12 wedi'u harwyddo gan y Swyddog Adran 151 Dros Dro ar 28 Mehefin 2012 o fewn y dyddiad cau statudol ddiwedd mis Mehefin ac y mae'r ddogfen yn awr wedi'i chyhoeddi'n llawn ar wefan y Cyngor. Roedd yr adroddiad yn cynnwys eglurhad byr o'r Datganiad Cyfrifon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU'N CODI O'R EITEM:-**

**(i) Bod fersiwn derfynol y cyfrifon yn cael ei chyflwyno i Bwyllgor Archwilio mis Medi.**

**(ii) Hyfforddiant i'w ddarparu fel y bo'n briodol er mwyn cefnogi Aelodau'r Pwyllgor – yr hyfforddiant i ddigwydd ym mis Medi 2012.**

## 8 DATGANIAD LLYWODRAETHU BLYNYDDOL 2011/12

Ychwanegodd y Pennaeth Swyddogaeth Dros Dro (Adnoddau) bod y Datganiad Lywodraethu yn ddogfen gynhwysfawr sy'n seiliedig ar onestrwydd a thryloywder. Mae'n arddangos gwelliannau ac yn cydnabod y risgiau a'r gwendidau a bydd yn helpu'r Cyngor i symud ymlaen tuag at hunanreoleiddio. Rhoddodd y Swyddog ddiweddariad i'r Pwyllgor ynglŷn â'r Gofrestr Risg, cryfhau AD trwy benodi unigolion allweddol a'r newidiadau cyfredol o fewn yr Adain TG. Codwyd y mater o ddefnyddio Staff Asiantaeth yn ogystal â'r diffyg cynnydd o safbwynt Arfarnu Swyddi a Thâl Cyfartal. Trafodwyd hefyd y ffyrdd o ymgynghori gyda'r cyhoedd a bod angen cydnabod methiant a'i gynnwys fel rhan o'r Datganiad.

Cyflwynodd y Rheolwr Archwilio Mewnol y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft am 2011/12. Eglurodd y Rheolwr Archwilio Mewnol mai dogfen gorfforaethol oedd hon oedd yn ffurfio rhan o'r Datganiad Cyfrifon. Roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn bodloni gofynion Rheoliad 4(2) o Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2005 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

O safbwynt beth yn union oedd trefniadau Llywodraethu gofynnwyd i'r Pwyllgor ystyried cyfrifoldeb y Cyngor yn rhoi trefniadau priodol yn eu lle i lywodraethu ei fusnes, hwyluso iddo allu ymarfer ei swyddogaethau'n effeithiol, ac sydd hefyd yn cynnwys trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio Mewnol bod fformat y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn seiliedig ar gyfarwyddyd CIPFA / SOLACE ac ar ddeg thema gwella llywodraethu y Comisiynwyr. Roedd y Cyngor wedi monitro cynnydd yn erbyn y deg thema gwella yn chwarterol ac felly roedd cynnwys canlyniadau'r monitro hwn yn chwarter 4 2011-12 yn rhoi rhyw syniad o effeithiolrwydd y trefniadau. Roedd y Cyngor mewn sefyllfa wahanol i lawer oherwydd yr ymyrraeth oedd yn seiliedig ar wendidau yn eu trefniadau llywodraethu ac felly roedd y Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn un mwy manwl nag a fyddai'n arferol mewn sefyllfa lle na cheid ymyrraeth.

Dywedodd y Rheolwr Archwilio wrth y Pwyllgor bod y Datganiad Llywodraethu Blynyddol drafft yn cael ei gyflwyno fel y gallai'r aelodau gael cyfle i ystyried tegwch y ddogfen oedd yn cynrychioli'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â threfniadau llywodraethu'r Cyngor, i awgrymu newidiadau lle bo angen hynny ac i ychwanegu unrhyw eitemau yr oeddent yn credu oedd yn berthnasol.

Cyfeiriodd y Rheolwr Archwilio Dros Dro y Pwyllgor at dudalen 9 y Datganiad oedd yn rhoi manylion am y prif feysydd oedd yn cael eu hystyried i fod yn wendidau yn nhrefniadau llywodraethu'r Cyngor

DRAFT

yn 2011-12. Roedd y rhain yn cynnwys cyflwyno'r Cyfrifon yn hwyr, adroddiad AGGCC ar Ddiogelu, trefniadau Parhad Busnes, trefniadau Rheoli Risg, cydymffurfio gyda gweithdrefnau a pholisïau allweddol, a phrosesau arfarnu swyddi / tâl cyfartal, materion diogelwch data a gwerthuso staff.

Yn dilyn y cyflwyniad cafwyd trafodaeth ymysg yr aelodau a chyfeiriwyd at y ffaith nad oedd llawer o bobl yn mynychu rhai sesiynau galw-i-mewn a bod angen rhoi sylw i hyn yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a bod angen ystyried dulliau mwy arloesol o ymgysylltu yn y dyfodol, megis y sesiynau hawl i holi gan y Pwyllgor Gwaith a holiaduron drwy'r post.

Cyfeiriwyd hefyd at y paragraff ar y prosesau Arfarnu Swyddi / Tâl Cyfartal a hefyd at farn yr Archwilydd Allanol, o ystyried eu natur feirniadol efallai bod amcangyfrifon y Cyngor yn y maes hwn 'wedi'u camddatgan yn sylweddol'. Roedd yr Archwilydd Allanol yn cytuno bod y sylw hwn yn un oedd allan o'i le a'i gyd-destun fel ag yr oedd yn ymddangos yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol a chytunwyd y byddai'r cyfeiriad at hyn yn cael ei adolygu yn y fersiwn derfynol o'r Datganiad.

**PENDERFYNWYD derbyn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol Drafft am 2011/12 a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI O'R EITEM:-**

**(i) bod diweddariad yng nghyswllt y Gofrestr Risg yn cael ei roi yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Archwilio;**

**(ii) bod y cyfeiriad at y "Prosesau Tâl Cyfartal" ddangosir ar Tudalen 10 yn cael eu hailddrafftio er mwyn osgoi dryswch;**

**(iii) i gynnwys meysydd lle gwelir methiant o fewn y Datganiad e.e. diffyg presenoldeb mewn Sesiynau galw-i-mewn;**

**(iv) bod adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio nesaf yn rhoi manylion am y costau oedd ynglŷn â chyflogi Staff Asiantaeth yn hytrach na phenodi staff cymwys llawn amser.**

**9 ARCHWILIO ALLANOL**

**9.1 Diweddariad Archwilio Allanol – Cynllun Gwaith ac Amserlen**

Dywedodd Mr. John Roberts, Swyddfa Archwilio Cymru, bod y Cynllun Gwaith a'r Amserlen ar gyfer Chwefror 2012-Mawrth 2013 yn darparu dealltwriaeth o'r hyn sy'n digwydd ac ymhle y mae'n digwydd a phwy fyddai'r person cyswllt ymhob categori. Byddai gwybodaeth yn bwydo i mewn i'r Adroddiad Gwella Blynyddol a'r Llythyrau Asesu.

**PENDERFYNWYD nodi'r Cynllun Gwaith a'r Amserlen er gwybodaeth.**

**9.2 Atborth o Adolygiad Rheoli Gwybodaeth Swyddfa Archwilio Cymru**

Cafwyd adroddiad gan Mr. John Roberts, Swyddfa Archwilio Cymru, ar y crynodeb a'r canfyddiadau oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**

**CAMAU GWEITHREDU YN CODI O'R EITEM:-**

**(i) bod adroddiad ar gyfrifoldebau ynglŷn â Rheoli Gwybodaeth yn cael ei gyflwyno i Bwyllgor Archwilio mis Medi;**

**(ii) bod diweddariad ar faterion TG yn cael ei roi mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio yn y dyfodol.**

**9.3 Diweddariad ar waith PwC**

Cafwyd amlinelliad gan Mr James Quance PwC o gynnwys ei adroddiad oedd yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor ar gynnydd yr archwiliad ariannol yn erbyn y cerrig milltir allweddol terfynol osodir yn y

DRAFT

gwaith Amlinelliad Archwilio Ariannol 2011/12 ac Ardystio Grant.  Nododd yr Aelodau bod PwC yn croesawu'r cynnydd oedd yn cael ei wneud gyda gwelliant mewn ansawdd a gwell perthnasau gweithio gyda Swyddogion.

**9.4  Ardystio Grantiau a Dychweliadau 2010-11**

**Adroddiad gan PwC** – Crynodeb o'r gwaith wnaed gan PwC – cyflwynwyd a nodwyd er gwybodaeth.

**Ymateb gan yr Adran Gyllid** – Cadarnhaodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) nad oedd yr Adran yn anghytuno gyda'r canfyddiadau a soniodd am y newidiadau a'r gwelliannau pellach fydd yn cael ei gwneud yn y man. Roedd yn credu y dylai'r Aelodau weld gwelliant yn yr adroddiad nesaf.

**10  ARCHWILIO MEWNOL**

Cyflwynwyd i'w ystyried adroddiad cynnydd ar Archwilio Mewnol wedi ei baratoi gan y Rheolwr Archwilio.  Nododd yr Aelodau bod y perfformiad yn gweithredu'r argymhellion yn is na'r targed gyda 72% o argymhellion Uchel a Chanolig yn cael eu cefnogi fel rhai lle gwelwyd gweithredu.  Roedd graff yn dangos dadansoddiad o'r argymhellion y gweithredwyd arnynt gan y Gwasanaeth wedi'i gynnwys fel rhan o'r adroddiad i'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad i bwrpasau gwybodaeth.**

**CAMAU GWEITHREDU O'R EITEM:-**

**(i)  hyfforddiant ar Reoli Risg i'w drefnu yn y dyfodol agos;**

**(ii)  y teitl "Gwaith Archwiliol Arbennig" i'w newid i ddarllen "Atgyfeiriadau".**

**11  RHEOLI'R TRYSORLYS**

**11.1  Adroddiad Blynyddol Rheoli'r Trysorlys 2011/12**

Y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) oedd yn cyflwyno'r adroddiad.  Cadarnhaodd beth oedd y gofynion adrodd yn ôl gan egluro nad oedd yr adroddiad diweddaru trysorlys canol y flwyddyn wedi'i gyflwyno i'r Cyngor Sir ac y byddai'r Cyngor yn derbyn ymddiheuriad am hynny y nes ymlaen.  Roedd yr adroddiad yn cadarnhau bod y Cyngor wedi cydymffurfio gyda'r gofynion o dan y Côd i graffu'r adroddiadau rheoli'r trysorlys.

Roedd y dangosyddion pwyllog gwirioneddol allweddol a'r dangosyddion trysorlys yn rhoi manylion am effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ac roeddent wedi'u cynnwys fel rhan o'r adroddiad.

Cadarnhaodd y Swyddog Adran 151 Dros Dro i fenthyca gael ei wneud i bwrpas cyfalaf yn unig ac nad oedd y terfyn benthyca statudol (y terfyn a awdurdodwyd) wedi'i dorri.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo ei gynnwys ar gyfer ei gyfeirio i'r Cyngor Sir.**

**11.2  Adroddiad Chwarter 1 Rheoli'r Trysorlys 2012/13**

Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth (Cyllid) ei hadroddiad.  Nododd yr Aelodau nad oedd ond ychydig newid i'r chwarter blaenorol.  Roedd un buddsoddiad wedi aeddfedu ac fe wnaed dau fuddsoddiad newydd yn ystod y chwarter cyntaf.  Roedd y Cyngor yn parhau o fewn ei derfynau pwyllog ac o fewn ei derfynau buddsoddi.  Nodwyd y cynigion ar gyfer gweddill y flwyddyn.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a chymeradwyo ei gynnwys.**

**Y Cynghorydd T. H. Jones**

**Cadeirydd**

DRAFT